

YN YSTOD Ionawr eleni cyfeiriwyd at y naturiaethwr John Williams (1801-59) yn y rhaglen 'Awyr Iach' ar S4C a chafodd ei ganmol am ei gyfrol *Faunula Grustensis* a gyhoeddwyd yn 1830 a'i hargraffu gan John Jones, Llanrwst.

Ond roedd John Williams yn llawer mwy na naturiaethwr a chasglwr planhigion. Roedd yn llawfeddyg, milfeddyg, amaethwr arbrofol, daearegwr, anturiaethwr ac yn ŵr diwylliedig iawn.

Ei fab, John Williams (1843-1916), Rheithor Llanwddyn (1890-1916), a gyflwynodd holl gasgliad ei dad o bum mil o blanhigion i Goleg y Brifysgol, Bangor yn 1902. Ef hefyd a roes beth o hanes ei dad yn 'Byegones', ac ar y wybodaeth yn y cylchgrawn hwnnw ac yn erthygl Thomas Shankland yn 'Y Genhinen' y seilwyd y manylion amdano a geir yn y Bywgraffiadur Cymreig.

Ond cwbl annigonol yw'r wybodaeth, a gobeithiaf roi hanes mwy cyflawn am John Williams a'i waith yn y llyfr y bwriadaf ei gyhoeddi.

Ail fab Cadwaladr Williams, melinydd, a Jane Williams Felin Uchaf, Pentrefelin, Llansanffraid - Glan - Conwy ydoedd — ei dad yn hanu o Ysbyty Ifan a'i fam o Ddolwyddelan ac yn gyfnither i John Jones, Talysarn. Ganwyd iddynt wyth o blant. Fel John Williams ei hun, meddygon oedd ei ddau frawd William (1797-1834) a Moses (1803-32).

Y syndod yw fod gan y ddau frawd raddau meddygol ar ddechrau eu gyrfaoedd ond mai yn ystod tair blynedd olaf ei oes y derbyniodd John Williams ei raddau - L.S.A. (Licentiate of the School of Apothecaries) yn 1856; M.D. ac M.R.C.S. (Lloegr) yn 1858.

Serch hynny, roedd yn feddyg trwyddedig gan iddo ddilyn cwrs byr yng Ngholeg y Llawfeddygon yn Nulyn ac ennill yno ei 'Letters Testimonial'.

Yn ystod ei yrfa dangosodd ei fod yn llawfeddyg neilltuol o alluog a chymeradwy, ac o bryd i'w gilydd ceid nifer o lythyrau o bwys ganddo yn y 'Medical Times' a 'Medical Circle'. Yn ystod 1830-31 ef oedd meddyg plwyf Llanrwst, ac wedyn bu'n feddyg yng Nghorwen am ddeunaw mlynedd cyn ymfudo i America gyda'i briod Emma, (merch Thomas Owen, Rheithor Llangelynnin) a'i blant Jane Emma a John.

Dychwelodd y teulu i Gymru yn 1853 gan fyw yn Froncysyllte, Wrecsam a'r Wyddgrug lle bu John Williams farw ar y pedwerydd o Dachwedd 1859.

* * *

ERS DYDDIAU ei lencyndod bu'n ymddiddori mewn

CAREY JONES a naturiaethwr Dyffryn Conwy Y llanc o Bentrefelin

garddwriaeth a bu'n derbyn hyfforddiant mewn amryw o lefydd. Bu yn Betley Hall, Swydd Stafford, ym mhlas yr Iarlles Bridgewater, Ashridge, ger Tring, yng Ngerddi Kew ac yng Ngardd Lysiau (Physic Garden) Chelsea.

Roedd yn ddyledus iawn i John Wynne Griffith (1763-1834) Garn, Henllan, sef Aelod Seneddol Bwrdeistrefi Dinbych (1818-26), ac iddo ef y cyflwynodd John Williams ei *Faunula Grustensis*, gan gyfeirio ato yma ac acw yng nghorff y llyfr.

Roedd J. W. Griffith yntau yn gasglwr planhigion a bu ef a Hugh Davies (1739-1831), awdur *Welsh Botany*, yn cynorthwyo Syr J. Edward Smith, awdur *Flora Britannica*, ac amryw o lysieuwyr pwysig eraill drwy roi samplau o blanhigion prin Gogledd Cymru iddynt.

Roedd John Williams mewn dyled hefyd i lafur Richard Roberts, Felin-y-coed, Llanrwst, a'i fab Dr David Roberts. Roedd eu copi hwy o *Arrangements of British Plants* gan Dr Withering ym meddiant John Williams ac ar ymyl tudalennau'r llyfr roedd eu sylwadau hwy a'u cyfeiriadau at leoliad lleol nifer o'r planhigion.

Ysgrifennodd John Williams ei lyfr am y credai na chyhoeddwyd yng Nghymru waith tebyg iddo o'r blaen. Byddai llawer o bobl yn barod i'w ddarllen, meddai, gan fod pobl ardal Llanrwst mor barod eisoes i ddarllen barddoniaeth a llyfrau crefyddol.

Er mai ffrwyth ymchwil un Tymor yw'r sylwadau sy'n y llyfr am anifeiliaid, adar, pysgod, pryfetach a phlanhigion y fro, bu'n drwyadl yn ei astudiaeth ac roedd am i'r cynnwys ysbarduno rhywrai eraill yn y dyfodol i fanylu ac ymhelaethu ar y testunau a drafodid ganddo.

Ni fwrriadodd geisio cyhoeddi llyfr ar gyfer ysgolheigion ac o'r herwydd cadwodd rhag rhestru nifer o dermau gwyddonol sychion a allai godi braw ar y darllenwyr a chymhlethu'r cyflwyniad. Roedd yn adnabod trigolion y plwyf yn ddigon da i sylweddoli nad oedd ganddynt grebwyll gwyddonol a'i fwrriad ef oedd eu haddysgu yn y cyfeiriad hwn.


Faint gwell yw dyn, meddai, o deithio ymhell i wella ei stad ac yntau heb wybod dim am yr hyn oedd o'i gwmpas yn ei fro ei hun. Astudiaeth Bro a llyfr i'w fro a gyhoeddwyd ganddo.

* * *

O GYFIEITHU'R teitl *Faunula Grustensis* ceir mai'r ystyr yw Planhigion Crwstaidd. Crwst oedd enw sant eglwys plwyf

naturiol a dyfai ger Conwy, sef gwymon y môr. Newidiodd ei feddwl ar ôl awgrymu y gellid ageru dŵr y môr yn Llandudno i wneud halen, gan y byddai'r broses yn rhy gostus. Mynnai fod cryn ddiffyg menter fasnachol ym mhlwyf Llanrwst pan eid ati i werthu cynnyrch y tir. Gwell fyddai i'r ffermwyr amrywio eu cynnyrch a chynhyrchu mwy er mwyn gallu anfon rhagor ohono i'w werthu yn Lloegr.

Yn ei dŷ ef y trueni oedd fod cyn gymaint o'r ffermwyr a'r porthmyn yn anllythrennog, a'i syniad ef oedd cael masnachwyr proffesiynol i reoli economi'r ardal. Byddai'n llawer mwy buddiol pe ceisiai'r ffermwyr dyfu gwenith a gynhyrchai ragor o rawn ar bob gwelltyn, ond cyn mynd ati i wneud hynny dylent clwa ar ganlyniadau arbrofion a wneid mewn manau fel yr Ardd Lysiau yn Chelsea.



Llanrwst. Ceir disgrifiad manwl o'r eglwys yn y llyfr, a dibynnodd John Williams am y rhan fwyaf o'r hanes lleol ar lyfrau Thomas Pennant a Syr John Wynne, sef *Tours of Wales, a History of the Gwydir Family*.

Hefyd ceir cyfeiriad at holl bentrefi'r ardal gan nodi gwahanol bethau amdanynt. Rhestrau'n drefnus anifeiliaid, adar, pysgod, pryfetach a phlanhigion yr ardal gan roi iddynt eu henwau gwyddonol mewn Lladin a gosod gyferbyn â hwy eu henwau brodorol adnabyddus yn Saesneg a Chymraeg, ac eithrio yn adranau Planhigion Gardd a Phryfetach. Defnyddiodd yr un system wrth restru gwahanol afiechydon arferol plwyf Llanrwst.

* * *

DAW EI safbwynt a'i farn bersonol i'r amlwg pan mae'n trin a thrafod cyflwr Masnach ac Amaethyddiaeth y gymdogaeth. Hoffai weld newid mawr yn economi'r ardal a'i ddymuniad oedd cyflwyno ei syniadau er budd a ffyniant y fro. Awgrymodd y gellid codi diwydiannau newydd yn y cylch.

Nid oedd angen tir o ansawdd da ar gyfer tyfu llin, meddai, a dylid ei dyfu er mwyn gwneud lliain a gwlanen a fyddai cystal â rhai Iwerddon a Lloegr.

Roedd am i bobl blannu rhagor o berllannau, er budd trigolion y dyfodol. Dim ond un neu ddwy a gafodd eu plannu yn y plwyf yn ystod yr hanner canrif diwethaf, meddai.

Mae'n bur debyg iddo annog pobl i dyfu ffrwythau am ei fod wedi sylwi, pan oedd yn Ashridge, ar y perllannau niferus a oedd yn britho Swydd Hertford. Dywed mai diod arferol y ffermwyr ac eraill yno oedd seidr a hoffai weld seidr yn cael ei gynhyrchu ar raddfa eang yn Llanrwst.

Hefyd gellid tyfu mwstard, liquorice a thybaco yn yr ardal a gwneud sebon o'r deunydd

WIL BOOTS

DIDDOROL iawn oedd y rhifyn diwethaf o'r Casglwr a chefais fwynhâd mawr o ddarllen ysgrif Dewi Jones ar 'Wil Boots'. Wrth ddarllen y rhan olaf o'i ysgrif lle dywed Dewi sut y cyfarfu Wil a'i ddiwedd ar y mynydd ac iddynt ddo 'o hyd i'w gorff yn ddiweddarach yng ngwaelod rhigol serth ar Glogwyn y Garnedd,' atgoffwyd fi o'r nodyn canlynol a ddeuthum ar ei draws mewn hen newyddiadur. Efallai y bydd o ddiddordeb i Dewi a'r darllenwyr

'Pan oedd y diweddar Gwilym E. Powell (Gwilym Eryri), Milwaukee, Wisconsin, yn gweithio yng Ngwaith Mwn yr Wyddfa, y darfu i'r llysieuydd uchod a elwid ar lafar gwlad fel 'Wil y Boots', golli ei fywyd tra yn dringo un o gwterydd (gulley) Clogwyn y Garnedd, neu yn hytrach disgyn ar hyd-ddi, pryd y torrodd ei raff a syrthiodd i ddyfnder mawr. Bu ei gorff heb ei ddarganfod am bum wythnos, a Gwilym Eryri a Wm. Rowlands, Pentre Castell, Llanberis, a ddaeth o hyd iddo, ac adnabyddid y gwter honno hyd 1918 fel 'Cwter Wil y Boots', neu 'Gulley Wil y Boots'.

Deallaf mai 'cwter' yw'r hen enw ar rigol o'r math yma, sef 'gulley' y Saeson. Wrth gwrs, ceir nifer ohonynt ar glogwyni Eryri, megis 'Cwter Fawr', sydd nid ymhell o'r uchod. 'Cwter Wil Ellis', 'Cwter Ogof Arthur' ar y Lliwedd, ac amryw eraill.

Mac hanes diddorol ynglyn â mwynwyr hen Waith Copr yr Wyddfa yn dringo Cwter Ogof Arthur, ond stori at rhyw dro arall yw honno. Mae'n resyn o beth nad yw enwau'r 'cwterydd' yma, a llawer lle arall o ran hynny, ar y mapiau O.S., onid ydyw?

Steffan ab Owain
Tanygrisiau.